



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Camddefnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol'



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Camdefnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol'

Camdefnyddio'r teitl – cyflawni trosedd

Er mwyn gallu defnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' yng Nghymru, rhaid i unigolyn fod wedi cofrestru gydag un o'r sefydliadau canlynol:

- Gofal Cymdeithasol Cymru
- y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon
- Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban.

Mae unigolyn yng Nghymru, nad yw'n weithiwr cymdeithasol cofrestredig, yn cyflawni trosedd os yw'n gwneud un o'r canlynol:

- yn defnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol',
- yn defnyddio unrhyw deitl neu ddisgrifiad sy'n ymhlygu ei fod yn weithiwr cymdeithasol cofrestredig, neu
- yn ffugio bod yn weithiwr cymdeithasol mewn unrhyw ffordd arall,

gyda'r bwriad o dwyllo rhai eraill¹.

Os ceir unigolyn yn euog o'r drosedd, gallai gael dirwy gan lys ynadon. Mae hyn ond yn berthnasol i gamdefnyddio'r teitl gweithiwr cymdeithasol cymwys.

Lle nad yw trosedd yn cael ei chyflawni

Mae'n annhebygol y bydd unigolyn nad yw wedi cofrestru wedi cyflawni trosedd os yw'n defnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol' gyda'r ôl-ddodiad 'dan hyfforddiant' neu'r teitl 'myfyriwr gwaith cymdeithasol'. Y rheswm am hyn yw bod y teitl yn dynodi'n glir nad yw wedi cymhwyso'n llawn. Gan gymryd bod yr unigolyn yn hyfforddai neu'n fyfyrwr, byddai'r ôl-ddodiad yn dangos nad oes unrhyw fwriad i dwyllo.

Yn yr un modd, lle mae unigolyn arall neu sefydliad yn disgrifio unigolyn anghofrestredig fel 'gweithiwr cymdeithasol' heb yn wybod iddo, ni fyddai'r unigolyn yn euog o drosedd. Byddai enghreifftiau o hyn yn cynnwys cyfeiriad ato fel 'gweithiwr cymdeithasol':

- yn y cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft, Twitter
- mewn eitem newyddion ar y teledu
- mewn erthygl papur newydd
- ar wefan.

¹ Adran 111, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016



Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r defnydd o'r teitl yn gamgymeriad gan yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n gyfrifol am y trydriad/eitem/erthygl. Nid oes unrhyw fwriad i dwyllo ar ran yr unigolyn anghofrestredig.

Fodd bynnag, byddai unigolyn yn cyflawni trosedd pe bai'n gwneud honiad ffug ynghylch unigolyn nad yw wedi cofrestru, gan wybod bod hynny'n anghywir a'i fod wedi gwneud hynny gyda'r bwriad o dwyllo.

Lle mae unigolyn yn gweithio fel gweithiwr cymdeithasol ond mae wedi methu cofrestru neu wedi methu cynnal ei gofrestrriad fel gweithiwr cymdeithasol

Mae hyn yn digwydd yn yr amgylchiadau canlynol:

- lle mae unigolyn yn mynd i'w golli o'r Gofrestr trwy fethu adnewyddu ei gofrestrriad
- lle mae unigolyn yn methu gwneud taliad blynyddol
- lle mae unigolyn wedi cymhwyso fel gweithiwr cymdeithasol, ond nad yw erioed wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu gorff rheoleiddio priodol arall
- lle bu newidiadau i'r gofynion mewn rôl swydd unigolyn sy'n mynnu ei fod wedi'u cofrestru, ond mae wedi methu cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol.

Beth i wneud os yw rhywun yn camddefnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol'

Os ydych chi'n gwybod, ac mae tystiolaeth gennych, fod rhywun yn camddefnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol', mae angen i chi ein hysbysu ni amdano/amdani yn ysgrifenedig (trwy lythyr neu neges e-bost). Bydd angen i chi anfon y canlynol atom:

- ei enw/henw
- manylion cyswllt, er enghraifft, cyfeiriad cartref, ble mae'n gweithio neu gyfeiriad e-bost
- tystiolaeth ei fod/bod yn camddefnyddio'r teitl ac yn cyflawni trosedd, er enghraifft, e-bost, cerdyn busnes, hysbyseb, CV ac ati.

Os nad ydych eisiau i'r unigolyn wybod pwy roddodd yr enw i ni, dywedwch wrthym pan fyddwch yn ysgrifennu atom.

Anfonwch y wybodaeth at:

aiy@gofalcymdeithasol.cymru neu at y:

Tim Addasrwydd i Ymarfer
Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd CF10 1EW



Beth fyddwn ni'n ei wneud

Pan ddown i wybod am honiadau fod unigolyn yn camddefnyddio'r teitl 'gweithiwr cymdeithasol', byddwn:

- yn ysgrifennu ato i ofyn iddo roi'r gorau i weithio fel gweithiwr cymdeithasol os yw ei fanylion cyswllt gennym
- yn gofyn iddo ymateb a chadarnhau ei fod wedi rhoi'r gorau i'r camddefnydd
- yn hysbysu cyflogwr yr unigolyn os yw ei fanylion gennym, a gofyn iddo ymchwilio i'r hyn sydd wedi digwydd, neu gyfeirio'r unigolyn at yr heddlu os nad yw ei fanylion cyswllt gennym.

Lle derbyniwyd cadarnhad fod y camddefnydd wedi dod i ben, byddwn yn cau'r mater.

Mewn rhai amgylchiadau, gallwn ddechrau ein herlyniad ein hunain os penderfynwn y byddai gwneud hynny er budd y cyhoedd. Efallai y cyfeiriwn yr unigolyn at yr heddlu hefyd. Lle'r ydym yn penderfynu erlyn a bod yr unigolyn yn cael ei ddyfarnu'n euog, gallai fod yn atebol i dalu dirwy o hyd at £5,000.

